23.09.2020

TRIBIWNLYS ADOLYGU IECHYD MEDDWL CYMRU
Adroddiad Blynyddol 2019-20 - Safonau'r Gymraeg

1. Cyflwyniad

Dyma ail adroddiad blynyddol y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("y Tribiwnlys") ar ei gydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg ers i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020.

2. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Tribiwnlys yn sicrhau cydymffurfiad gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau trwy:

- Darparu canllawiau i staff am sut i ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn a negeseuon e-bost.
- Neges ar ein llinell gymorth sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg i'n cwsmeriaid.
- Templedi llythyr, sy'n cynnig cyfle i gwsmeriaid ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.
- Mae holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys ffurflenni cais a chanllawiau.
- Mae bob tudalen ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3. Safonau Llunio Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn arfer ei swyddogaethau statudol yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ei lywodraethu. Nid yw o fewn cylch gwaith y Tribiwnlys i ddatblygu polisi. Fodd bynnag, rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar gyflenwi ein gwasanaethau trwy'r Gymraeg.

4. Safonau Cadw Cofnodion

Mae Hysbysiad Cydymffurfio y Tribiwnlys (sydd yn manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth, Llunio Polisi, a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys: https://tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru/sites/mentalhealthreview/files/2019-06/180711-mhrtw-welsh-lang-standards-compliance-cy.pdf

Rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion a dderbyniwn, os bydd cwyn o gwbl, mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau.

5. Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â gweithredu'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.